# Menter Bro Ogwr

**Cwmni Cyfyngedig drwy warrant rhif 5522274**

**Elusen gofrestredig 1112683**

# Datganiad ariannol

## Am y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2024

**MENTER BRO OGWR**

**1 Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2024**

**CYNNWYS** **TUD**


| | |
|---|---|
| Gwybodaeth Gweinyddol | **3** |
| Adroddiad y Cyfarwyddwyr | **4** |
| Adroddiad yr archwilwyr annibynnol | **7** |
| Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol | **9** |
| Mantolen | **10** |
| Nodiadau ar y cyfrifon | **11** |

# MENTER BRO OGWR

## Gwybodaeth am y Cwmni
## am y cyfnod 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024

| | |
|---|---|
| **Enw'r Cwmni:** | Menter Bro Ogwr |
| **Cyfeiriad Cofrestredig:** | Menter Bro Ogwr<br>Tŷ'r Ysgol<br>Pen yr Ysgol,<br>Maesteg<br>Penybont ar Ogwr<br>CF34 9YE |
| **Cyfarwyddwyr:** | Daniel Lloyd Evans<br>John Thomas<br>Brian Roderick<br>Rhiannon Dixon<br>Margaret Thomas |
| Ysgrifennydd: | Amanda Jaine Evans |
| Rhif Cofrestredig : | 5522274 (Cymru a Lloegr) |
| Archwilwyr: | Curtis Bowden & Thomas Cyfyngedig<br>9 Court Road<br>Bridgend<br>CF31 1BE |

# MENTER BRO OGWR

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr
## am y cyfnod 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024

Mae'r Cyfarwyddwyr, sydd hefyd yn Ymddiriedolwyr yr elusen at ddiben deddfwriaeth cwmnïau, yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol archwiliedig am flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2024.

Mae'r ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu'r darpariaethau yn y 'Datganiad o Arferion a Argymhellwyd i Elusennau 2005' wrth baratoi'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau yma.

**Gweithredu**
Mae'r cwmni yn cael ei weithredu yn ôl erthyglau a memorandwm Menter Bro Ogwr. Y Bwrdd sydd yn gyfrifol am arolygu holl waith a busnes yr elusen, gyda'r aelodau'n gweithredu fel Cyfarwyddwyr ac Ymddiriedolwyr. Etholir y Cyfarwyddwyr gan Gyfarfod Blynyddol Menter Bro Ogwr.

**Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr/cyfarwyddwyr**
Mae'r ymddiriedolwyr/cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb am baratoi'r datganiadau cyllidol yn unol a gofynion safonau cyfrifyddol y Deyrnas Unedig sy'n berthnasol. Mae cyfraith elusennau'r Deyrnas Unedig yn mynnu bod yr ymddiriedolwyr yn darparu datganiadau cyllidol am bob blwyddyn sy'n rhoi darlun gwir a theg o gyflwr yr elusen ac o incwm a thraul yr elusen am y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau cyllidol mae disgwyl i'r ymddiriedolwyr:-
- dewis polisïau cyfrifyddol addas ac yna eu cymhwyso'n gyson;
- gwneud gosodiadau sy'n rhesymol a chall;
- dweud fod safonau cyfrifyddol perthnasol a Datganiad Ymarferion a Argymhellwyd wedi cael eu dilyn heblaw am unrhyw wyriadau materol sydd wedi ei datguddio a'u hesbonio yn y datganiadau cyllidol;
- darparu datganiadau cyllidol ar sail busnes oni bai ei bod yn anaddas i gymryd yn ganiataol y bydd yr elusen yn parhau mewn busnes.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cyfrifon priodol sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol ac ar unrhyw adeg gyflwr cyllidol yr elusen ac i'w galluogi i sicrhau bod y datganiadau cyllidol yn cydsynio a'r Ddeddf y Cwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am sicrhau asedau'r elusen a chan hynny i gymryd camau rhesymol i atal ac i ddarganfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

Mor belled ag y mae'r ymddiriedolwyr yn gwybod:

- does dim gwybodaeth perthnasol i'r archwiliad y mae'r archwilwyr yn anymwybodol ohono;
- Cymerodd yr ymddiriedolwyr y camau priodol i ddatgan eu bod yn ymwybodol o holl wybodaeth yr archwiliad ac i sicrhau bod y wybodaeth hon yn hysbys i'r archwilwyr.

**Adolygiad Risg**
Mae'r Bwrdd Rheoli wedi paratoi cofrestr risg sydd yn cynnwys risgiau fel parhad y Fenter, materion ariannol, Iechyd a Diogelwch, staffio a'r amgylchedd ac i sicrhau bod y camau priodol yn bodoli i leihau ar y risgiau hynny.

**Amcanion a Gweithgareddau**

Amcanion yr elusen yw i hybu addysg a gwybodaeth cyffredinol y gymuned drwy hyrwyddo'r Iaith Gymraeg.

Mae'r Fenter yn darparu ystod eang o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mwrdeistref Penybont ar Ogwr a'r cyffiniau. Ceir braslun o'r gwaith ar safle gwe y Fenter www.menterbroogwr.cymru.

Mae Menter Bro Ogwr yn rhan bwysig o fywyd yr ardal ac yn cydweithredu gyda'r Cyngor Sir a nifer o fudiadau lleol. Yn ystod y flwyddyn datblygwyd nifer o weithgareddau a digwyddiadau er mwyn hybu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith Cymry Cymraeg a Dysgwyr. Mae nifer o brosiectau eraill hefyd wedi eu cyflawni ym myd busnes a gofal plant ac mae'r Fenter o hyd yn chwilio am gyfleoedd newydd i hybu'r Gymraeg.

Mae'r Fenter yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru a'r Cyngor Sir am eu cefnogaeth ariannol i weithgareddau'r Fenter. Hefyd rhoddwyd oriau o waith gan wirfoddolwyr sy'n gweithredu ar bwyllgorau'r Fenter ac yn gweithio ar brosiectau'r Fenter. Dymuna'r cyfarwyddwyr ddiolch i bawb a gefnogodd y Fenter yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn falch i gyflwyno'r adroddiad yma a'r adroddiad ariannol o weithgarwch y Fenter. Mae'r cyfarwyddwyr wedi cymeradwyo yr adroddiad.

**Budd cyhoeddus**

Mae holl waith Menter Bro Ogwr yn cael ei gynllunio er budd y cyhoedd. Prif amcan y Fenter yw i hybu addysg a gwybodaeth cyffredinol y gymuned drwy hyrwyddo'r iaith Gymraeg.
Gwneir hyn drwy drefnu gweithgareddau a digwyddiadau sy'n agored i'r cyhoedd. Mae'r gweithgareddau a digwyddiadau yn rhoi cyfle i bobl o bob oed gymdeithasu a gwella eu sgiliau cyfathrebu a mwynhau mewn awyrgylch cyfeillgar. Rhoddir cyhoeddusrwydd eang i'r ddarpariaeth ac anogir pobl newydd i gymryd rhan. Mae galw cynyddol am y ddarpariaeth oddi wrth y cyhoedd ym mhob rhan o'r Sir.

Ni chodir tâl am rai o'r gweithgareddau a phan mae angen codi tâl rhoddir cefnogaeth i ddefnyddio'r cymorth daliadau sydd ar gael i leihau'r gost i bobl sy'n methu talu'r pris llawn.

**Polisi Arian Wrth Gefn**

Mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried anghenion yr elusen am arian wrth gefn yn unol â chanllawiau a roddwyd gan Gomisiwn yr Elusennau ac wedi mabwysiadu y polisiau canlynol:

**Polisi Cronfa Arian Wrth Gefn**

Mae angen cronfa arian wrth gefn i

(a) gael arian i'w glustnodi ar gyfer prosiectau arbennig er mwyn eu datblygu neu wireddu mewn cyfnod byr ac

(b) i sicrhau fod arian ar gyfer costau gweinyddu a chynnal sy'n galluogi'r elusen i weithredu yn arbennig yn ystod y cyfnod ar ddechrau blwyddyn ariannol newydd ac

(c) Polisi yr ymddiriedolwyr yw y dylai'r Gronfa Arian Wrth Gefn fod oddeutu 14% - 18% o'r gwariant anghyfyngedig.

**Ar ddiwedd Blwyddyn Ariannol 2023/24**

Y gweddill oedd

Anghyfyngedig £19,262 Cyfyngedig £0

Mae'r arian wrth gefn, sef £19,262 yn ddigonol i gynnal yr elusen dros gyfnod byr. Roedd yn 12% o'r gwariant anghyfyngedig yn 2023/24

Arwyddwyd ar rhan y cyfarwyddwyr gan:

JOHN THOMAS. TRYSORYDD.

**Cyfarwyddwr**

22 Hydref 2024

Swyddfa gofrestredig:
Menter Bro Ogwr
Tŷ'r Ysgol
Pen yr Ysgol,
Maesteg
Penybont ar Ogwr
CF34 9YE

**ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I AELODAU MENTER BRO OGWR**

Rydym wedi archwilio datganiad ariannol Menter Bro Ogwr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 o Mawrth 2024 sy'n cynnwys y datganiad o weithgareddau ariannol, a'r fantolen a'r nodiadau cysylltiedig. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi, yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Paratowyd yr adroddiad hwn i ymddiriedolwyr yr elusen, fel corff, ac ar eu cyfer hwy yn unig, yn unol ag Adran 144 Deddf Elusennau 2011. Ymgymerwyd â'n gwaith archwilio fel y gallwn ddatgan i ymddiriedolwyr yr elusen y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilydd a heb fod at unrhyw bwrpas arall. I'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r elusen ac ymddiriedolwyr yr elusen fel corff, am ein gwaith archwilio, neu am y barnau a ffurfiwyd gennym.

**Priod gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Archwilwyr**

Fel yr esbonnir yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr, y mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni at ddibenion y gyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig) ac am fod yn fodlon bod y datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg.

Mae'r ymddiriedolwyr wedi dewis i'r datganiadau ariannol gael eu harchwilio yn unol â Deddf Elusennau 2011 yn hytrach na Deddf Cwmnïau 2006. Yn unol â hynny, rydym wedi ein penodi fel archwilwyr o dan Adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 ac adroddwn yn unol ag adran 154 y Ddeddf honno. Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r datganiadau ariannol a datgan barn arnynt yn unol â'r gyfraith berthnasol ac â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (Y DU ac Iwerddon). Y mae'r safonau hynny'n ei gwneud yn ofynnol i ni gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

**Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol**

Rhoddir disgrifiad o gwmpas archwiliad o ddatganiadau ariannol ar wefan y Bwrdd Arferion Archwilio www.frc.org.uk/apb/scope/private.cfm

**Barn**

Yn ein barn ni:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa materion y cwmni elusennol ar 31 Mawrth 2024 ac o'i adnoddau sy'n dod i mewn ac o ddefnyddio adnoddau, gan gynnwys ei incwm a'i wariant, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac

- Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac

- Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â Deddf Cwmnïau 2006.

**ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I AELODAU MENTER BRO OGWR**

**Materion y mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiad arnynt drwy eithriad**

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd o ran y materion canlynol, y mae Deddf Elusennau 2011 yn gofyn i ni gyflwyno adroddiad i chi arnynt, os barnwn:

- fod y wybodaeth a roddir yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr yn anghyson mewn unrhyw ffordd o bwys â'r datganiadau ariannol; neu
- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cyfateb i'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- Nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae arnom eu hangen ar gyfer ein harchwiliad.

**Stephen Davies**
**Archwiliwr Annibynnol**
Ar gyfer: Curtis Bowden & Thomas Cyfyngedig
Cyfrifwyr Siartredig Ardystiedig a
Archwilwyr Statudol
9 Court Road
Penybont ar Ogwr
CF31 1BE

12/12/2024

## Menter Bro Ogwr

Cwmni cyfyngedig trwy warant rhif: 5522274

Elusen gofrestredig rhif: 1112683

**Datganiad o Weithgareddau Ariannol**

## Incwm a Gwariant am y Flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2024

| | Cronfeydd Anghyfyngedig | Cronfeydd Cyfyngedig | **Cyfanswm 2023/2024** | Cyfanswm 2022/2023 |
|---|---|---|---|---|
| **Adnoddau a dderbyniwyd** | | | | |
| Grantiau | 82,925 | | 82,925 | 87,406 |
| Rhoddion | - | | - | - |
| Llog Banc | 227 | | 227 | 55 |
| Incwm Codi Arian | 31,983 | | 31,983 | 25790 |
| Incwm arall | - | | - | - |
| Cyfanswm derbyniwyd | 115,135 | | 115,135 | 113,251 |
| **Adnoddau a wariwyd** | | | | |
| Elusennol uniongyrchol | | | | |
| Gweithgaredd | 115,435 | | 115,435 | 105,197 |
| Costau Cynnal | 2,908 | | 2,908 | 1,829 |
| Gwariant arall | | | | |
| Cyhoeddusrwydd | | | | |
| Rheoli a gweinyddu | 3,331 | | 3,331 | 3,394 |
| Siop Yr Hen Bont | | | | |
| Cyfanswm a wariwyd | 121,674 | | 121,674 | 110,420 |
| Adnoddau net a dderbyniwyd | -6,539 | | -6,539 | 2831 |
| Balansau a ddygwyd ymlaen | 25,801 | | 25,801 | 22,970 |
| Balansau a gariwyd ymlaen | 19,262 | | 19,262 | 25,801 |

Mae'r datganiad o weithgareddau ariannol yn cynnwys yr holl enillion a cholledion y flwyddyn

Mae'r holl weithgareddau'n parhau.

## Menter Bro Ogwr

Cwmni cyfyngedig trwy warant rhif: 5522274

Elusen gofrestredig rhif: 1112683

**Datganiad o Weithgareddau Ariannol**

**Mantolen ar 31 Mawrth 2024**

| | **2024** | 2023 |
|---|---|---|
| Asedau Sefydlog | **£** | £ |
| Asedau Anghyffyrddadwy | | |
| Asedion Cyffyrddadwy | | |
| Buddsoddiadau | | |
| Cyfanswm asedion sefydlog | **-** | - |
| Asedion Cyfredol | | |
| Stociau | | |
| Dyledwyr | **-** | - |
| Arian yn y Banc ac mewn llaw | **19,262** | 25,801 |
| Cyfanswm asedion cyfredol | **19,262** | 25,801 |
| Credydwyr tymor byr | **-** | - |
| Asedion Cyfredol Net | **19,262** | 25,801 |
| Cronfeydd | | |
| Cronfeydd anghyfyngedig | **19,262** | 25,801 |
| Cronfeydd cyfyngedig | | |
| Cyfanswm y Cronfeydd | **19,262** | 25,801 |

Mae'r datganiadau ariannol yma wedi eu paratoi yn ôl y darpariaethau arbennig yn Rhan VII o ddeddf y Cwmnïau 2006 yn ymwneud â chwmniau bach ac yn unol a Safonau Cymwys ar gyfer Endidau Bach (Ebrill 2008)

Cymeradwywyd y cyfrifon gan y Cyfarwyddwyr ac fe'u harwyddwyd ar eu rhan gan:

John Thomas

JOHN THOMAS TRYSORYDD

## Polisiau cyfrifo

### Y sail cyfrifo

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi eu paratoi o dan y confensiwn costau hanesyddol ac yn unol a safonau cyfrif cymwys ar gyfer Endidau Bach (mewn grym Ebrill 2008). Dilynir hefyd y Ddeddf Elusennau 2011 a'r datganiad o ymarferion a gynhwysir yn 'Adrodd a Chyfrifo am Elusennau: Datganiad o Arferion a Argymhellwyd i Elusennau (SORP)' a gyhoeddwyd ym Mawrth 2005.

### Incwm Gwirfoddol

Derbyniwyd incwm gwirfoddol mewn ffurf rhoddion ac fe gynhwysir yn llawn yn y Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol pan yn ddyledus. Ni chynwysir yn y cyfrifon gwerth y gwasanaeth a roddwyd gan wirfoddolwyr gan nad ydym yn gallu mesur y swm gan ddibynadwyaeth digonol. Caiff incwm o fuddsoddiadau eu credydu wrth eu derbyn.

### Dibrisiant

Nid yw'r tir yn cael ei ddibrisio. Dibrisir asedion sefydlog y cwmni ar raddfeydd er mwyn lleihau cost yr ased, llai eu gwerth gweddilliol, dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased fel a ganlyn:
Offer a chyfarpar 33.33% ar gost

### Grantiau

Caiff grantiau eu cynnwys yn y Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol pan yn ddyledus.

### Treth

Mae Menter Bro Ogwr yn elusen gofrestredig ac felly yn rhydd o dalu treth corfforaethol ar ei weithgareddau elusennol.

# Menter Bro Ogwr

## Cwmni Cyfyngedig drwy warrant rhif 5522274

## Elusen gofrestredig 1112683

## Derbyniadau a Threuliau am y Flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2024

**Menter Bro Ogwr**
**Cwmni cyfyngedig trwy warant rhif: 5522274**
**Elusen gofrestredig rhif: 1112683**

**DERBYNIADAU A THREULIAU AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2024**

| **Derbyniadau** | |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru | 60,000.00 |
| Clwb ar ol ysgol | 25465 |
| Gweithgareddau | 3382 |
| Yr Hogwr | 4032 |
| Cyngor Llyfrau | 25 |
| Mentrau Iaith Cymru | 750 |
| Grant Strategaeth Llywodraeth Cymru | 3439 |
| Cyngor Pen-y-bont | 17786 |
| Dŵr Cymru | 29 |
| **Cyfanswm** | **£114,908** |
| Llog cyf cadw | £227 |
| Cyfanswm | 115,135 |
| **Cyfanswm Derbyniadau** | **115,135** |

| **Treuliau** | |
|---|---|
| Cyflogau | 100,818 |
| Teithio / Treuliau | 2,076 |
| Swyddfa | 1,619 |
| Nwy a Trydan | 991 |
| Dŵr | 298 |
| Clybiau ar ôl Ysgol | 2,207 |
| Yswiriant | 1,381 |
| Aelodaeth | 1,000 |
| Ffôn | 1,872 |
| Gweithgareddau | 1,618 |
| Yr Hogwr | 4,386 |
| Hyfforddiant | 2,064 |
| Titan | 1,266 |
| Costau Banc | 78 |
| **Cyfanswm** | **121,674** |
| Cyfanswm | 121,674 |
| **Trosglwyddiadau Banc** | |
| Derbyniad Cyfrif Cadw | 25,000 |
| Derbyniad Cyfrif Cyfredol | 17,083 |
| **Cyfanswm Treuliau** | **163,757** |

**CRYNODEB**

| **Cronfa Anghyfyngedig** | |
|---|---|
| Cyfanswm derbyniwyd | 115,135 |
| Cyfanswm a wariwyd | 121674 |
| Adnoddau net a dderbyniwyd | -6,539 |
| Balans dygwyd ymlaen | 25,801 |
| Balans gariwyd ymlaen | 19262 |

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2023 - 2024
# MENTER BRO OGWR

Hybu a hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg drwy gydweithio â mudiadau, cymdeithasau, busnesau, dysgwyr ac ysgolion. Bwriad y Fenter yw codi proffil yr iaith Gymraeg yn y sir gan gynyddu cyfleoedd trigolion o bob oedran i ddefnyddio'r Gymraeg mewn amrywiaeth o feysydd.

MENTRAU IAITH

# RHAGAIR

Ar ddiwedd blwyddyn arloesol, lle dathlwyd y Fenter ein pen-blwydd 30 oed! Mae'n bleser cael cyflwyno Adroddiad Blynyddol Menter Bro Ogwr am y flwyddyn 2023-24, blwyddyn y gwelsom newid syfrdanol i'n gwasanaethau a bywydau ein cymunedau.

Ni ellid ymgymryd â'r her heb deyrngarwch ac ymrwymiad y staff, swyddogion, aelodau'r Is-bwyllgor a'r Bwrdd Rheoli, gwirfoddolwyr a phartneriaid fel ei gilydd. Bu nifer o ddatblygiadau cyffrous yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn seiliedig ar gynlluniau newydd, ymateb i ofynion cymunedau lleol ac wrth gwrs heriau ôl-effeithiau'r pandemig.




Llwyddodd y Fenter i ddenu dros £115,000 o gyllid tuag at wasanaethau cyfrwng Cymraeg yn y Sir yn ystod y flwyddyn sy'n cynnwys grantiau a chytundeb gan Gyngor Pen-y-bont, Llywodraeth Cymru, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a ffioedd gofal plant.

Manteisiwyd ar weithio mewn partneriaeth, a hynny mewn perthynas â nifer o fudiadau a sefydliadau yn lleol, yn sirol ac yn genedlaethol. Lansiwyd nifer o gynlluniau a phrosiectau cyffrous yn ystod y flwyddyn.

Mae ein dyled ni'n fawr i aelodau Bwrdd Rheoli Menter Iaith Bro Ogwr am eu hymroddiad a'u harweiniad parhaol ac am eu cadernid a'u cefnogaeth, i dîm o staff brwdfrydig am eu cydweithrediad ac i'r llu o wirfoddolwyr gweithgar am eu cyfraniad a'u cefnogaeth.

# PWY YDYM NI: CWRDD Â'R STAFF

**Amanda Jaine Evans**
Prif Swyddog

**Kath Campbell**
Swyddog Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

**Ieuan Dixon**
Swyddog Cymunedol

**Rhiannon Thomas**
Uwch-weithiwr Chwarae

**Enid Thomas**
Gweithiwr Chwarae

**Ella Rees**
Gweithiwr Chwarae

**Lilly Corless**
Gweithiwr Chwarae

# PWY YDYM NI: BWRDD RHEOLI

**Daniel Lloyd Evans**
Cadeirydd

**Rhiannon Dixon**
Is-gadeirydd

**John Thomas**
Trysorydd

**Brian Roderick**

**Margaret Thomas**

**Amanda Jaine Evans**
Ysgrifennydd y Cwmni



# CYNLLUN GOFAL PLANT MENTER BRO OGWR

Menter Bro Ogwr yw'r unig ddarparwr cynlluniau gofal y tu allan i'r ysgol trwy gyfrwng y Gymraeg yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr. Rydym yn cynnal Clwb Bananas yn Ysgol Gymraeg Bro Ogwr, sy'n hynod o lwyddiannus. Mae'r clwb ar agor yn ystod tymor yr ysgol yn unig ac yn cynnig lle i 16 o blant fynychu'r clwb bob sesiwn, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae 40 o blant wedi manteisio ar y gwasanaeth hwn eleni.

O ganlyniad i rieni eisiau clwb ar ôl ysgol yn ysgol Cynwyd Sant, llwyddwyd i agor ein hail ddarpariaeth Clwb Bananas Cynwyd Sant ar 17 Ebrill 2023. Mae 42 o blant wedi manteisio ar y gwasanaeth hwn eleni.

Mae'r ddarpariaeth yn rhoi cyfle allweddol i gynnig gwaith cyfrwng Cymraeg i siaradwyr Cymraeg y Sir a'r cyfle i bobl ifanc ennill cymwysterau yn y maes sy'n sicrhau gwaith lleol trwy gyfrwng y Gymraeg iddynt. Rydym wedi llwyddo i recriwtio 3 aelod newydd o staff i weithio yn y maes hwn eleni.

Rydym yn ddiolchgar iawn i'n Swyddog Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, Kath Campbell, am ei gwaith wrth gefnogi ein staff gofal a sicrhau ein bod yn cyflawni gwasanaeth o safon uchel, trwy gyfrwng y Gymraeg i deuluoedd y Sir.

# GWEITHGAREDDAU PLANT A PHOBL IFANC

## Dros **530** yn cymryd rhan
## **9** o glybiau wythnosol
## Dros **230** o weithgareddau wyneb yn wyneb

Yn ystod y tymor ysgol ac yn ystod y gwyliau ysgol, rydym yn cynnal gweithgareddau amrywiol ar gyfer plant oedran ysgol gynradd i fwynhau, gwneud ffrindiau newydd a defnyddio'r Gymraeg. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys clwb ceidwaid, clwb pêl-rwyd, clybiau celf a chrefft, clybiau sbort a sbri, cynlluniau chwarae, Cwis Dim Clem, Dawns Haf a mwy.

Rydym yn gweithredu gwasanaeth Ieuenctid cyfrwng Cymraeg ar gyfer pobl ifanc y Sir. Cyflogir Swyddog Cymunedol llawn amser, yn Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd. Mae'r Swyddog yn gyfrifol am ddatblygu cyfleoedd a gweithgareddau cyfrwng Cymraeg ar gyfer pobl ifanc ar draws y sir y tu allan i oriau ysgol ac yn ystod y gwyliau ysgol. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys sesiynau Pop-up, clybiau wythnosol, cyfleoedd i wirfoddoli a theithiau amrywiol.

Roedd y Fenter yn ffodus iawn i ennill tendr i gynnal Prosiect Gwlad ar draws y Fwrdeistref. Ar ddechrau'r rhaglen, gwnaethom greu proffiliau cymunedol ieuenctid ar gyfer ardaloedd Gogledd, Dwyrain a Gorllewin y Sir. Mae'r rhain yn cynnwys y darpariaethau ieuenctid sydd ar gael i bobl ifanc, demograffeg sgiliau ieithyddol, yn ogystal â'r ysgolion y maent yn eu mynychu.

Fel rhan o'r prosiect rydym wedi ymgysylltu â'r darpariaethau ieuenctid lleol i egluro'r hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni ac rydym yn ymgynghori â staff a phobl ifanc ar eu meddyliau, eu teimladau a'u dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru a hanes eu hardal. Mae hwn yn cael .

ei ddefnyddio i ddatblygu rhaglen bedair wythnos ar gyfer un deg saith darpariaeth yn ystod y flwyddyn ariannol hon.
Mae'r prosiectau sy'n cofrestru yn cymryd rhan mewn rhaglen bedair wythnos sy'n edrych ar yr iaith Gymraeg, diwylliant a hanes yn ogystal â hanes lleol eu hardal.
Mae sesiwn pedwar yn cael ei threulio yn creu graffiti i'w arddangos o fewn y prosiect. Bydd yr 17 darn yn cael eu harddangos ar Fawrth 31 y flwyddyn nesaf gyda phobl ifanc, rhieni, staff ac uwch swyddogion y Cyngor Sir yn mynychu.

# GWEITHGAREDDAU TEULU

Dros **120** yn cymryd rhan
Dros **10** o weithgareddau wyneb yn wyneb
**3** o gyrsiau/sesiynau i rieni.

Mae cynnig gweithgareddau i'r teulu cyfan yn flaenoriaeth i'r Fenter ac yn ystod y flwyddyn, darparwyd diwrnodau a gweithdai yn arbennig i deuluoedd. Yn ogystal â hyn, darparwyd nifer o gyrsiau i rieni fanteisio ar y cyfle i ddysgu Cymraeg i'w hannog i'w defnyddio yn y cartref gyda'u plant.

Mae'n allweddol bod cyfleoedd cyfrwng Cymraeg ar gael i blant a'u teuluoedd er mwyn sicrhau cyswllt â'r Gymraeg. Bu'r cyfleoedd yn cynnwys ein sesiynau stori a chrefft ar draws nifer o lyfrgelloedd y Sir, cyfres o helfeydd yn y parc, digwyddiad Nadoligaidd Cymraeg i'r Teulu, stori gyda Siôn Corn, dathlu Santes Dwynwen, cyfleoedd cymdeithasu yn ystod gwyliau'r haf o dan ein prosiect Haf o Hwyl i'r Teulu, a mwy.

Bu ein cyrsiau yn cynnwys sesiynau Bytis Bygis, cwrs Cymraeg yn y Bag, a chwrs Cymraeg yn y Cartref.





# CYFLEOEDD I OEDOLION

## Dros **130** o oedolion
## Dros **130** o weithgareddau wyneb yn wyneb

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, trefnwyd gweithgareddau wythnosol ac achlysurol i oedolion. Mae sawl gweithgaredd i ddysgwyr i gael ymarfer a datblygu eu Cymraeg.
Bu'r cyfleoedd hyn yn cynnwys boreau a phrynhawniau coffi, coffi a chlonc ar-lein, Cam Ymlaen, ymweld a pherfformiad Golygfeydd o'r Pla Du, Parti Pen-blwydd Menter Bro Ogwr, Swper Nadolig, Dathlu'r Hen Galan, Noson Cawl a Chân a mwy. Yn ystod y flwyddyn, mynychodd 97 o oedolion ein sesiynau cymdeithasu.

Mae'n bwysig nodi ein bod wedi derbyn cefnogaeth ac ymrwymiad diffuant oddi wrth ddysgwyr y sir ers cychwyn y Fenter ac, erbyn hyn, mae grŵp craidd o ddysgwyr yn mynychu pob gweithgaredd a gynigir.

Mae gan y Fenter 5 gwirfoddolwr sy'n gyfrifol am ein digwyddiadau wythnosol. Rydym yn targedu gwirfoddolwyr newydd o fewn ein prosiectau wythnosol. Maent yn cael eu grymuso drwy ymuno â'r sesiynau wythnosol ac yna cael eu targedu drwy staff y Fenter i holi am eu diddordeb mewn gwirfoddoli. Rydym yn eu hyfforddi a phan fyddant yn hapus, rydym yn gadael y sesiwn iddynt tra bod y staff yn symud ymlaen i ddechrau sesiwn arall. Rydym yn cadw mewn

"Dwi bob amser wedi darganfod staff y Fenter yn gefnogol ar fy nhaith dysgu Cymraeg. Maen nhw' n trefnu amrywiaeth o weithgareddau bod yn annog dysgwyr i ddefnyddio'r iaith."

cysylltiad drwy ddarparu gweithgareddau, cofrestr a hefyd i rannu gwybodaeth am unrhyw gyfleoedd sy'n codi. Yna mae'r gwirfoddolwr yn hysbysebu'r rhain ymhlith yr aelodau yn eu sesiynau.

Mae'n bwysig iawn i'r Fenter ein bod yn cynorthwyo, yn gweithio mewn partneriaeth ac yn cefnogi sefydliadau lleol eraill sy'n hybu'r Gymraeg. Buom felly yn cydweithio gyda Dysgu Cymraeg Morgannwg a Choleg Penybont i ddarparu stondin gwybodaeth yn nigwyddiad Ffair y Glas y Coleg, a chwrdd â Dosbarth Mynediad 1 i siarad am waith y Fenter a chyfleoedd i gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn ogystal â hyn, darparu gwybodaeth reolaidd am ein digwyddiadau i'w rhannu gyda dysgwyr.

# GOFALU YN GYMRAEG

Prosiect ar y cyd rhwng Menter Bro Ogwr a chartref preswyl Foxtroy House yw 'Gofalu yn Gymraeg'. Rydym wedi darparu rhaglen wythnosol i 17 o breswylwyr gymryd rhan mewn sesiynau iaith a diwylliant Cymraeg yn ogystal â gwersi Cymraeg anffurfiol i 7 aelod o staff. Pwrpas y gwersi Cymraeg yw dysgu Cymraeg sylfaenol y gallai'r staff ei defnyddio gyda'r preswylwyr tra byddant yn y gwaith.

Mae'r sesiynau hyn yn parhau ac wedi datblygu cyfle ymgysylltu cymunedol, lle rydym yn cynnal digwyddiad Caffi Cymraeg yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Shwmae, gan wahodd trigolion lleol i fynychu'r cartref preswyl lle gallant gael coffi a sgwrs gyda'r preswylwyr. Rydym hefyd wedi gweld ymweliad gan Y Fari Lwyd o fewn sesiwn eleni.

Mae angen rhannu'r gwaith hwn yn eang o fewn Sir Pen-y-bont ar Ogwr ac yn ehangach, er mwyn i gartrefi gofal eraill ddysgu o arfer da. Mae angen rhoi pwyslais ar nifer y siaradwyr Cymraeg sydd ar gael yn y Fwrdeistref fel y gall gwaith cynllunio effeithiol gael ei wneud i fynd i'r afael â'r materion hyn a bodloni cyfarwyddebau Llywodraeth Cymru, ac i ddiwallu anghenion pobl leol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ar hyn o bryd yng Ngholeg Penybont, mae 17 o fyfyrwyr yn dilyn cwrs lefel 2 lechyd a Gofal Cymdeithasol a 24 o fyfyrwyr yn ymgymryd â lefel 3. Mae 40 o fyfyrwyr wedi cofrestru ar.y cwrs mynediad, 34 o'r rhain ar iechyd a 6 ar ofal cymdeithasol.

Mae'r Coleg yn rhagweithiol wrth gadw data cywir ar nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n mynychu'r cyrsiau hyn, ar hyn o bryd mae 1 dysgwr yn dilyn y cwrs lefel 2, 9 yn dilyn y cwrs lefel 3 ac 1 ar y cwrs mynediad. Rhywbeth y bydd y Fenter yn gwneud gwaith arno o fewn y flwyddyn ariannol nesaf.

"Dw i eisiau defnyddio fy Nghymraeg, mae'r sesiynau yma wedi fy ngalluogi i wneud hynny"



# PAPUR BRO: YR HOGWR

Mae Menter Bro Ogwr wedi parhau i gyhoeddi Yr Hogwr - Papur cymunedol Cymraeg ar gyfer ardal Pen-y-bont ar Ogwr a gyhoeddir yn fisol gan bobl leol o fewn cymunedau lleol Pen-y-bont ar Ogwr.

Rydym yn ymwybodol iawn o gyfraniad arbennig yr Hogwr i gynnal a hyrwyddo bywyd Cymraeg ein cymuned, sydd wedi gosod y sylfaen i waith y Fenter. Rydym wedi denu erthyglau gan gynulleidfaoedd newydd, ac rydym hefyd wedi gallu parhau i wneud defnydd o'r tîm ardderchog o wirfoddolwyr sydd gennym, diolch i bob un ohonoch. Edrychwn ymlaen at flynyddoedd eto o gyhoeddi'r Hogwr.

PAPUR BRO OGWR

Ras 22/06/2023 10:30am
yn dod i Porthcawl!
coming to Porthcawl!

Nid Ras yw Ras yr Iaith!

Mae Menter Bro Ogwr yn falch i gyhoeddi fod Ras yr Iaith 2023 yn dod i Porthcawl Os oes diddordeb gyda chi,gymryd rhan mewn unrhyw

FFIT CYMRU

Mae Menter Bro Ogwr yn falch iawn i gyhoeddi taw Gweinidog Dylan Parry o FFIT Cymru fydd yn arwain cymal Porthcawl o Ras yr Iaith 2023!!!

Dyma'r ail dro i'r Ras ymweld âr dref hon, ac ar ôl ei ddith trawsnewid ysbrydoledig or FFit Cymru, ellwn ni ddim meddwl am neb gwell na Dylan i annog pawb sy'n cymryd rhan. Mae Dylan yn byw yn y Pwrdeistref ac edrychwn ymlaen at gael o'n arwain y Ras fel ysbrydoliaeth i bawb!

PAPUR BRO OGWR

CYMDEITHAS HANES BRO OGWR HANES MEWN FFORDD SYML

Cymraes yw mam Josephine a Gwyddel yw ei thad. Cymro yw ei thad-cu, brawd Dr Elin, a Phywlos yw ei mamgu. Yr oedd ei rhieni yn gweithio dros yr Undeb Ewropeaidd ym Mrwsel. Ar y pryd yr oedd Josephine yn wyth neu naw mlwydd oed a roedd gandd hi ddiddordeb mawr mewn hanes. Yr oedd gandd hi lyfrau am hanes Gwlad Pwyl, am hanes Iwerddon, am hanes yr Almaen, Sbain, a gwledydd eraill hefyd. Ond doedd ddim llyfr hanes Cymru gandd hi. Gofynnodd ei thad am awgrym eddi wrth Dr Elin. 'Na,' meddai hi, 'dwi ddim yn gallu awgrymu un ond dwi'n meddu ysgrifennu un.'

A dyma oedd wnaeth Dr Elin. Efo cefnogaeth Myrddin ap Dafydd a chymdeithas Hywdreath Cymru yr oedd y gwaith yn dechrau. Yr oedd Josephine yn helpu efo'r cyllun, cyniadau ers y dawr, straeon yn dynnwyd merched ac eid am dymion yn unig, gan gynnwys Euddog, Boudica, au with gwrs llyfr yn llawn cyfres. Yr oedd Dr Elin wedi ymweld âg ysgol yn Albertowa ble roedd llawer o plant ffoadurialid. Ar ôl y wers yr oedd un ferch fach swil o Albania yn dod at Dr Elin. 'Excuse me,' meddai hi, 'I know about Owain Glyndŵr.' 'Dyma athrawes dda iawn,' meddai Dr Elin. Yr oedd y plant mar frwdfrydig am ei hanes!'


PAPUR BRO OGWR


PAPUR BRO OGWR

PENSILWYDD NAPUS YSGOL Y FERCH O'R SGÊR YN AD OEDD

# PARTNERIAETH GYDAG AWEN

Rydym yn parhau i adeiladu ar ein perthynas gydag Awen. Elusen gofrestredig yw Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen. Ei diben yw gwella bywydau pobl. Mae AWEN yn gwneud hyn drwy ddarparu cyfleoedd i bobl a chymunedau brofi, mwynhau a chael eu hysbrydoli gyda'i gilydd gan ddiwylliant.

Maent yn gweithredu ystod o gyfleusterau a gweithgareddau diwylliannol, gan gynnwys theatrau, llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol, plasty a pharc gwledig. Mae Awen yn denu dros filiwn o ymweliadau i'w lleoliadau a'i gwasanaethau bob blwyddyn.

Rydym wedi denu pobl newydd i'n darpariaethau drwy gynnal digwyddiadau wythnosol mewn 3 o leoliadau AWEN ar draws Pen-y-bont ar Ogwr. Mae unigolion wedi dweud bod yn well ganddynt gyfarfod o fewn eu cymuned eu hunain yn hytrach na theithio, ac mae'r bartneriaeth waith hon wedi rhoi cyfle i hyn ddigwydd.

Rydym yn edrych ymlaen yn fawr iawn at adleoli swyddfa'r Fenter i Neuadd y Dref Maesteg wythnos gyntaf mis Ionawr 2025.

Llyfrgelloedd Libraries

Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Cultural Trust







# RAS YR IAITH

Ar yr 22ain o Fehefin daeth dros 200 o bobl i redeg i ddathlu'r Gymraeg ym Mro Ogwr! Nid ras arferol yw Ras yr Iaith, ond ras i fwynhau'r Gymraeg gyda ffrindiau. Y nod yw codi ymwybyddiaeth o'r iaith, dangos balchder ati a dangos i'r byd fod cefnogaeth i'r Gymraeg ar lawr gwlad. Ac mae'r ras i bawb – os ydych chi'n siarad Cymraeg neu beidio.

Mae'r ras wedi'i seilio ar ras y 'Korrika' yng Ngwlad y Basg sydd wedi ysbrydoli 'Ar Redadeg', sef ras debyg yn Llydaw. Ac mae rasys tebyg yn Iwerddon, Catalwnia a Galisia. Digwyddodd Ras yr Iaith yng Nghymru yn 2014, 2016 a 2018 fel ras ar draws Cymru gan basio baton yr iaith ymlaen o gymal i gymal. Gyda ras rithiol yn 2020 llwyddodd y Mentrau Iaith a'r rhedwyr i gasglu miloedd o bunnoedd at elusennau'r Byrddau Iechyd yng Nghymru.

Eleni roedd 11 cymal ar draws Cymru ar yr un pryd i greu un digwyddiad mawr ar draws y wlad. Cynhaliwyd ein cymal ni yn Nhref Porthcawl. Hoffai Menter Bro Ogwr ddiolch yn fawr iawn i bawb oedd wedi cymryd rhan, gwirfoddoli, neu gefnogi Ras yr Iaith 2023 ym Mhorthcawl! Roedd yn ddiwrnod gwych ac mor braf gweld pawb yn dod at ei gilydd i gerdded dros yr iaith a dathlu'r Gymraeg!





# GŴYL OGI OGI OGWR

Unwaith eto eleni, cynhaliwyd ein Gŵyl fach Gymraeg Ogi Ogi Ogwr ym Mharc Gwledig Bryngarw.

Ar 1af o Orffennaf 2023, cynhaliwyd diwrnod o weithgareddau, perfformiadau a stondinau gwybodaeth ar gyfer y gymuned gyfan, gyda'r rhain yn cynnwys Ysgol Bro Ogwr, Ysgol Calon y Cymoedd, Ysgol Cynwyd Sant, Ysgol Y Ferch o'r Sgêr, Rhys Howard, Lily Howard, Cymraeg i Blant Penybont, Dysgu Cymraeg Morgannwg, RhAG, Bridgend Carers Centre, Yr Hen Lyfrgell Porth, Red Room Confectionery a Chyngor Bwrdeistref Pen-y-bont, Halibalw, Gwŷr y Stac, Wigwam, Mei Gwynedd, Foxtroy a Sophie Williams. Diolch i chi ac i'r 14 unigolion a wirfoddolodd eu hamser ar y diwrnod.

Diolch yn arbennig i'n prif bartner AWEN wrth iddynt gytuno i ddefnyddio Tŷ Parc Bryngarw a'r Nyth ar y diwrnod i sicrhau bod yr Ŵyl hon yn tyfu ac nad yw'n achosi problem mewn tywydd garw.
Ymwelodd dros 500 â'r ŵyl yn ystod y diwrnod bendigedig, pawb yn dod at ei gilydd i hybu'r Gymraeg ym Mharc Gwledig Bryngarw.

Erbyn hyn mae Ogi Ogi Ogwr yn uchafbwynt yn ystod y flwyddyn i'r Fenter ac i'n partneriaid ac yn cynnig cyfle ardderchog i ddathlu Cymreictod y sir ac i ddangos yr amrywiaeth o gyfleoedd sy'n bodoli'n lleol i ddefnyddio'r Gymraeg. Edrychwn ymlaen at ddatblygu'r ŵyl ymhellach y flwyddyn nesaf.

# GORYMDAITH A CHYSTADLEAETH GŴYL DDEWI AR Y CYD Â MCARTHUR GLEN

Trefnwyd Gorymdaith ar y cyd â McArthur Glen, Pen-y-bont i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi eleni. Fel rhan o'r dathlu cafwyd 429 o geisiadau ar gyfer cystadleuaeth 'Caru Cymru', Gorymdaith o gwmpas McArthurGlen ac yna perfformiadau gan blant Ysgol Cynwyd Sant, Ysgol Y Ferch o'r Sgêr, Ysgol Gynradd Calon y Cymoedd, Ysgol Gynradd y Drenewydd, Ysgol Gymraeg Bro Ogwr ac Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd. Daeth y Cynghorydd Huw David, Arweinydd y Cyngor, i arwain yr orymdaith. Roedd yn ddigwyddiad hynod lwyddiannus, gan ddenu plant, pobl ifanc, rhieni, gwirfoddolwyr a thrigolion lleol i fod yn rhan o'r dathliad.





# GWIRFODDOLI GYDA MENTER BRO OGWR

**5** gwirfoddolwr yn cefnogi ein digwyddiadau cymunedol wythnosol

**10** o wirfoddolwyr ifanc

**7** aelod o Fwrdd Rheoli ac Is-bwyllgor Rheoli Menter Bro Ogwr

Mae denu a chefnogi gwirfoddolwyr wedi bod yn rhan annatod o waith y Fenter ers ei sefydlu.

Mae cefnogaeth ac ymroddiad gwirfoddolwyr yn ein galluogi ni i ddarparu trawstoriad eang o gyfleoedd trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn ogystal, mae'r cyfle i wirfoddoli gyda'r Fenter trwy gyfrwng y Gymraeg yn brofiad allweddol wrth ddysgu'r Gymraeg, rhannu sgiliau neu fanteisio ar gyfleoedd newydd o fewn y gymuned i ddefnyddio eich Cymraeg.

Mawr obeithiwn y gallwn barhau i ddatblygu'r cyfleoedd hyn a sicrhau bod cyfleoedd newydd i wirfoddolwyr o bob oedran wirfoddoli trwy gyfrwng y Gymraeg yn lleol a chael cydnabyddiaeth am y cyfraniad hwn.

# CYFATHREBU Â'R CYHOEDD

Rydym wedi parhau i godi ymwybyddiaeth o waith y Fenter, y Gymraeg, digwyddiadau cymdeithasol, a'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael drwy osod erthyglau rheolaidd yn ein papur bro.

Rydym yn gwneud defnydd cyson o'n tudalennau Facebook, Twitter ac Instagram ac wedi gweld cynnydd parhaol yn nifer y dilynwyr sydd gan y Fenter. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd 2,100 yn ein dilyn ar Facebook a 1,729 ar Twitter. Roedd 456 o bobl hefyd yn ein dilyn ar Instagram erbyn diwedd y cyfnod hwn.

Menter Bro Ogwr
Tŷ'r Ysgol,
Pen yr Ysgol,
Maesteg,
CF34 9YE
E-Bost: menter@broogwr.org
Gwefan: www.menterbroogwr.cymru

menter@broogwr

@menterbroogwr

menterbroogwr

# Diolch

Diolch i'r holl rieni, plant a phobl ifanc am droi atom yn y Fenter laith i chwilio am gefnogaeth neu weithgareddau trwy gydol y flwyddyn. Rydym yn falch o allu gwasanaethu trigolion Sir Pen-y-bont ar Ogwr, drwy gynnig rhywfaint o gymorth o ran eu hanghenion ieithyddol, ond yn falch hefyd o allu dwyn perswâd ar eraill o ran rhoi cynnig ar ddefnyddio'r Gymraeg a'r manteision o'i defnyddio, boed fel dysgwyr, grwpiau cymunedol neu fudiadau lleol. Diolchwn hefyd i'r holl wirfoddolwyr sydd wedi rhoi o'u hamser yn ystod y cyfnod hwn, i helpu i lywio gwaith y Fenter, neu i'n cefnogi wrth gynnal gweithgareddau.







SHUMAE

MENTER BRO GOWR




DATHLU'R HEN
GALAN 2024
CELEBRATING THE OLD NEW YEAR 2024
CORNER HOUSE INN, LLANGYNWYD